ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd 2005

Cyfeiriwyd y Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd at y Pwyllgor yn sgil dadl yn y Cyfarfod Llawn am Araith y Frenhines ar 21 Mehefin 2005. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur yn ei gyfarfod ar 28 Medi.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion â'r swyddogion ynghylch gweithredu'r Mesur a bydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i amlinellu'r materion hyn. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n fodlon â manylion y Mesur.

Nododd y Pwyllgor fod y Mesur wedi'i gyhoeddi cyn y Papur Gwyn ar Drefn Lywodraethu Well i Gymru a thybiodd na chafodd 'pwerau fframwaith' eu hystyried wrth ddrafftio'r Mesur. Er hyn, cafwyd sicrwydd gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fod y Mesur wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n rhoi digon o gyfle i'r Cynulliad bennu'r manylion ar gyfer gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig yng Nghymru.

Christine Gwyther AC
Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn / Tel: 029 2082 828224
GTN: 1208
Ffacs / Fax: 029 2082 898021
Minicom: 029 2082 3280
E-bost:Chris.Gwyther@wales.gov.uk